**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar oblygiadau ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru)

Rhagfyr 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8026
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Finance.Comm@wales.gov.uk



© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad ar oblygiadau ariannol
y Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch
ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru)

Rhagfyr 2010

## Y Pwyllgor Cyllid

Cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid yw sicrhau y craffir yn briodol ar gyllideb a gwariant Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Ombwdsmon, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r gwahanol Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff GIG.

Yn gyffredinol, mae gan y Pwyllgor dair prif swyddogaeth:

- ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad a chyflwyno adroddiad arnynt;
- ystyried yr wybodaeth ariannol a gyflwynir gyda Mesurau Cynulliad, a lle bo'n briodol, cyflwyno adroddiad arni;
- ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant y Llywodraeth neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio ar y gwariant hwnnw.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Manylir ar ei bwerau yn Rheol Sefydlog 14 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain ar gael yn: **www.cynulliadcymru.org**.

## Aelodau'r Pwyllgor



**Angela Burns (Cadeirydd)**
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



**Lorraine Barrett**
De Caerdydd a Phenarth
Llafur



**Peter Black**
Gorllewin De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Andrew Davies**
Gorllewin Abertawe
Llafur



**Chris Franks**
Canol De Cymru
Plaid Cymru



**Brian Gibbbons**
Aberafan
Llafur



**Ann Jones**
Dyffryn Clwyd
Llafur



**Nick Ramsay**
Sir Fynwy
Plaid Geidwadol Cymru



**Janet Ryder**
Gogledd Cymru
Plaid Cymru

Bu'r Aelod a ganlyn yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyllid fel eilydd yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn:



**Rosemary Butler**
Gorllewin Casnewydd
Llafur

**Adroddiad ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru)**

<u>Dyfyniadau o’r Rheolau Sefydlog:</u>

(ii)*14.2 Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw’n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:*

*i. gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadaol sy’n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

…………………………………………………………..

*23.18 Ar yr un pryd ag y bydd [Aelod] yn cyflwyno Mesur arfaethedig, rhaid hefyd gosod Memorandwm Esboniadol y mae’n rhaid iddo:*

*vi) nodi’r amcangyfrifon gorau o’r canlynol:*

*(a) unrhyw gostau gweinyddol, costau cydymffurfio a chostau eraill y byddai darpariaethau’r Mesur arfaethedig yn arwain atynt;*;
*(b) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i’r costau hynny godi; ac*
*(c) lle y byddai’r costau’n syrthio;*

**Cyflwyniad**

1. Bu’r Pwyllgor Cyllid yn ystyried y Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) a’r Memorandwm Esboniadol yn ei gyfarfod ar 4 Tachwedd 2010 a chlywodd dystiolaeth gan

- Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
- James Price, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Bethan Bateman, Llywodraeth Cynulliad Cymru

2. Bu’r Pwyllgor Cyllid hefyd yn ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 mewn ymateb i’w ymarfer ymgynghori a oedd wedi cynnwys cwestiwn penodol mewn perthynas

ag ystyriaethau ariannol y Mesur arfaethedig: *Beth yw goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig i sefydliadau, os oes rhai o gwbl? Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai yr hoffech ystyried Adran 2 y Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n amcangyfrif costau a buddion gweithredu'r Mesur arfaethedig.*

3. Yn ychwanegol at hyn, bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth bellach a ddarparwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog yn ei lythyr dilynol at y Pwyllgor, dyddiedig 2 Rhagfyr 2010.

**Cefndir**

4. Dywed y Memorandwm Esboniadol[1] mai nod y mesur arfaethedig yw gwella delwedd ac ansawdd cludiant penodedig i ddysgwyr a sicrhau bod safonau diogelwch yn ddigon uchel i'r cyhoedd a rhieni fod â hyder mewn cludiant penodedig i ddysgwyr.

5. Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaethau eang a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â chludiant penodedig i ddysgwyr. Bydd y rhain yn rhoi dyletswydd ar gyrff perthnasol fel awdurdodau lleol neu gorff llywodraethol ysgol a gynhelir i:

- (i) osod gwregysau diogelwch addas (rhan 1);
- (ii) defnyddio cerbydau unllawr yn unig (rhan 1);
- (iii) defnyddio bysiau a gynhyrchwyd ar ôl dyddiad penodol (rhan 1);
- (iv) gosod systemau teledu cylch cyfyng a bodloni'r amodau gweithredu a nodwyd gan Weinidogion Cymru (rhan 2);
- (v) defnyddio cerbydau sy'n bodloni manyleb y "bysiau melyn" a safonau bysiau o'r fath (rhan 1);
- (vi) darparu safon berthnasol o hyfforddiant i yrwyr fel y nodwyd gan Weinidogion Cymru (rhan 4);
- (vii) cynnal yr asesiadau risg diogelwch a nodwyd gan Weinidogion Cymru (rhan 3)
- (viii) darparu staff i oruchwylio bysiau ysgol (rhan 5); ac
- (ix) mewn perthynas â thacsis a cherbydau llogi preifat, bodloni'r manylebau a nodwyd gan Weinidogion Cymru (rhan 1).

6. Yn ychwanegol at hyn mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth fel bod gan Weinidogion Cymru'r pŵer i:

[1] Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol para 1.1-1.3

(i) greu troseddau ar gyfer darparwyr cludiant i ddysgwyr sy'n torri rheoliadau diogelwch trwy fethu â bodloni'r gofynion penodedig (rhannau 1a 2);
(ii) creu trefn cosbau sifil ar gyfer darparwyr cludiant i ddysgwyr sy'n torri'r rheoliadau diogelwch trwy fethu â bodloni'r gofynion penodedig (rhannau 1 a 2 a'r Atodlen);
(iii) sefydlu corff gorfodi er mwyn gorfodi'r rheoliadau (rhannau 7, 8, 9 a 10); a
(iv) sefydlu tribiwnlys ar gyfer apeliau (rhan 6 a'r Atodlen).

**Y costau ynghlwm â'r Mesur arfaethedig**

7. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys y costau canlynol:

- **Gosod gwregysau diogelwch addas** - amcangyfrifir bod y gost o osod gwregysau diogelwch mewn cerbyd 70 sedd yn £11,000 ar gyfartaledd. Canfu arolwg yr Uned Ddata Llywodraeth Leol (LGDU) nad oes gwregysau diogelwch wedi'u gosod mewn 141 o fysiau tra nad yw sefyllfa 260 o fysiau eraill yn hysbys. Cost grynswth ailosod gwregysau mewn 141 o fysiau yw **£1.5m**, ond os bydd angen gosod gwregysau diogelwch ar ganran uchel o'r bysiau nad yw'r wybodaeth amdanynt yn hysbys, gallai'r gost grynswth godi i **£4.5m.**
- **Amnewid cerbydau deulawr** – amcangyfrifir y gall bod angen cyfanswm o 225 o gerbydau unllawr i gymryd lle'r 132 o gerbydau deulawr sydd ar waith ar hyn o bryd. Costau rhedeg crynswth y cerbydau ychwanegol yw tua **£2.8m**.
- **Dileu cerbydau hŷn yn raddol** – Mae data'r Uned Ddata Llywodraeth Leol yn nodi bod 1,201 o gerbydau wedi'u cofrestru cyn mis Hydref 2001 tra nad oedd sefyllfa 1,134 o gerbydau'n hysbys. Mae hyn yn awgrymu y gall hyd at ddwy ran o dair o gyflenwad bysiau cludiant penodedig i ddysgwyr fod wedi'u cynhyrchu cyn 2001. Amcangyfrifir y byddai cost grynswth gweithredu bysiau ychwanegol newydd yn **£10.4m** y flwyddyn ar gyfer 1,202 o fysiau, neu'n **£20.2m** ar gyfer 2,336 o fysiau.
- **Gosod Systemau Teledu Cylch Cyfyng** - Yn ôl adroddiad yr Uned Ddata Llywodraeth Leol, allan o fflyd o 3,295 o fysiau, mae systemau teledu cylch cyfyng wedi'u gosod mewn 663 ohonynt, mae 1,417 heb system teledu cylch cyfyng ac nid yw sefyllfa 1,215 o gerbydau'n hysbys. Byddai'n costio oddeutu **£2.2m** i osod

system teledu cylch cyfyng mewn 1,417 o gerbydau. Os bydd angen gosod system teledu cylch cyfyng yng ngweddill y 1,215 bws lle nad yw'r sefyllfa'n hysbys, bydd y gost hon yn codi i tua **£4m.** Yn ychwanegol at hyn, byddai angen tua **£300,000 y flwyddyn** er mwyn cynnal y camerâu

- **Goruchwylwyr ar gludiant i ddysgwyr** - Amcangyfrifir y byddai'r gost o gyflogi hebryngwr bws yn £6,084 y flwyddyn. Mae'r Uned Ddata Llywodraeth Leol yn cofnodi bod gan 827 o fysiau gyda hebryngwyr, bod 1,605 o fysiau heb hebryngwyr tra nad yw sefyllfa 863 o fysiau'n hysbys. Amcangyfrifir y byddai'n costio tua **£9.8m i £15m** i roi hebryngwr ar bob bws. Byddai'r costau'n disgyn pe bai hyn yn cael ei gyfyngu i roi hebryngwyr ar yr holl gerbydau sy'n cludo disgyblion i ysgolion cynradd yn unig (ac eithrio bysiau mini). Byddai 114 o gerbydau'n costio **£694,000.**
- **Asesiad risg diogelwch** - amcangyfrifir mai cost flynyddol gweinyddu asesiadau risg diogelwch yw **£30,000.**
- **Bodloni manyleb y bws melyn** - ymysg nodweddion cyffredin manyleb y bws melyn mae gosod gwregysau diogelwch a systemau teledu cylch cyfyng, amnewid bysiau deulawr a darparu hebryngwyr bysiau. Disgrifir y costau hyn uchod. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai amcangyfrif y gost grynswth o roi nodweddion y 'bws melyn' yn holl fysiau cludiant i ddysgwyr fyddai rhwng **£3.7m a £8.5m** sef costau untro, a **£12.9m - £18.1m** o gostau rheolaidd blynyddol.
- **Hyfforddiant i yrwyr** – Telir costau hyfforddi gan weithredydd bysiau ac amcangyfrifir ei fod yn costio £150 y person ar gyfartaledd. Gan fod hwn yn ofyniad cyfreithiol, ni ddylai fod unrhyw oblygiad ar gostau contractau i awdurdodau lleol.
- **Costau gweinyddu a gorfodi** - gan dybio bod Llywodraeth Cymru'n gwneud darpariaeth fewnol ar gyfer pum aelod o staff llawn-amser, amcangyfrifir bod costau cyflogau staff yn **£153,786** y flwyddyn.
- **Costau tribiwnlys** – rhagwelir baich achosion a threfniadau gweinyddu tebyg i Banel Dyfarnu Cymru, a glywodd wyth achos apêl yn 2007/08. Roedd amcangyfrif y costau cymorth yn **£79,713** gyda chostau llety gwrandawiad yn **£4,705**.

8. Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r dadansoddiad manwl o gostau a oedd wedi'i gynnwys yn y mesur arfaethedig. Mae'n nodi sylw'r Dirprwy Brif Weinidog[2] y byddai'r newidiadau'n cael eu cyflwyno'n raddol gan ystyried yr amserlen sydd gan awdurdodau lleol ar gyfer contractau presennol, fel y gall newidiadau ddigwydd ar adeg adnewyddu. Felly, er enghraifft, pe bai gweithredwr bysiau'n prynu cerbyd newydd, mae'n debyg y byddai'n bodloni'r gofynion i gyd ar unwaith ac felly'n lleihau'r gost mewn perthynas ag eraill a allai fod wedi'u nodi.

9. Mae'r Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar y Mesur isod:

**Sylwadau**

Gosod gwregysau diogelwch addas

10. Amcangyfrifir bod y gost gyflawn o osod gwregysau diogelwch rhwng £1.5m a £4.5m. Y rheswm bod yr amcangyfrif mor eang yw'r diffyg gwybodaeth. Dywed y Memorandwm Esboniadol[3] bod yr Arolwg Cludiant Ysgol yn cofnodi nad oes gwregysau diogelwch wedi'u gosod mewn 141 o fysiau tra nad yw sefyllfa 260 o fysiau eraill yn hysbys. Cafwyd y wybodaeth gan awdurdodau lleol drwy arolwg a gynhaliwyd gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol. Pan ofynnwyd iddo pam fod y wybodaeth yn anghyflawn, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog[4] ei fod yn meddwl ei bod yn debygol bod y wybodaeth gan awdurdodau lleol ond nad oeddent am ei rhannu. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog[5] y byddent mewn sefyllfa lle byddai angen iddynt wybod, yn ôl y gyfraith, ar yr adeg pan fyddai'r rheoliadau'n cael eu gwneud, ac felly gallent gadarnhau'r ffigurau i gyd. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn ei chael yn anodd deall pam fod Awdurdodau Lleol yn amharod i ddarparu'r wybodaeth hon ac mae'n siomedig bod yn rhaid mynd ymlaen i gynllunio polisi ar sail gwybodaeth anghyflawn. O gofio'r sefyllfa ariannol dynn, mae'n ofidus y bydd angen rhoi rhagor o ymdrech a mynd i ragor o gostau er mwyn cael y darlun cyflawn.**

---

[2] Cofnod y Trafodion p197, 4 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Cyllid
[3] Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol para 8.6
[4] Cofnod y Trafodion p215, 4 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Cyllid
[5] Cofnod y Trafodion p213, 4 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Cyllid

Amnewid cerbydau deulawr

11. Dywed Atodiad C i'r Memorandwm Esboniadol bod 132 o fysiau deulawr yn cludo 8,872 o fyfyrwyr, yn ôl yr Uned Ddata Llywodraeth Leol. Mae'n mynd ymlaen i amcangyfrif y byddai angen 225 o gerbydau unllawr er mwyn amnewid y rhain a byddai'r costau rhedeg ychwanegol[6] ar gyfer y rhain yn £2.8m. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn pryderu y gall fod costau cudd, yn ogystal â'r costau rhedeg ychwanegol hyn, fel mewn ysgolion a all fod heb le i gadw'r nifer gofynnol o gerbydau unllawr. Roedd y Pwyllgor hefyd yn meddwl tybed a fyddai'r cynnydd yn nifer y bysiau'n arwain at gynnydd yng nghostau yswiriant gyrwyr.

12. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog[7] ac nad oedd yn meddwl bod y costau cudd yn sylweddol oherwydd bod y mwyafrif helaeth o gerbydau'n rhai unllawr. Nid oedd yn ymwybodol o unrhyw anawsterau mawr posibl o ran lletya nifer cymharol fwy o fysiau ar dir ysgolion.

Systemau Teledu Cylch Cyfyng

13. Mae'r ffigurau yn y Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oes systemau teledu cylch cyfyng wedi'u gosod mewn nifer sylweddol o gerbydau ac nid yw sefyllfa nifer sylweddol o gerbydau'n hysbys. Nododd y Pwyllgor bod gwaith hefyd i'w wneud o ran datblygu'r defnydd o'r systemau hyn gan gynnwys hyfforddi gweithredwyr cerbydau i ddefnyddio'r systemau hyn. Mae angen gwneud gwaith hefyd ar ffyrdd o storio data er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol a gofynion eraill. Nododd y Pwyllgor Cyllid y bydd yn anodd bod â llawer o hyder yn yr amcangyfrifon o gostau tebygol nes bod y gwaith hwn wedi mynd rhagddo ymhellach.

Cydweithio rhwng awdurdodau

14. Nod y Mesur arfaethedig yw gwella cludiant penodedig i ddysgwyr ar draws Cymru ac mae llawer o'r datblygiadau'n cynnwys rhai o awdurdodau lleol Cymru neu'r cyfan ohonynt. Bu Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Pwyllgor Cyllid, ers tro, yn annog llywodraeth leol i weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth fel ffordd o ddarparu gwell

---

[6] Cofnod y Trafodion p233, 4 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Cyllid

[7] Cofnod y Trafodion p234, 4 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Cyllid

gwasanaethau yn fwy effeithiol ac effeithlon.  Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd Awdurdodau Lleol yn manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig i wneud hynny yn y Mesur arfaethedig hwn.

**Canlyniad**

15.  Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu'r prisiadau manwl a baratowyd i gefnogi'r mesur arfaethedig hwn.  Mae'n nodi datganiad y Dirprwy Brif Weinidog y byddai'r newidiadau'n cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n lleihau'r effaith ar awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau.  Fodd bynnag, mae wedi'i siomi gan y diffyg gwybodaeth sydd ar gael am fflyd gludiant bresennol awdurdodau lleol ac mae'n teimlo y bydd angen gwneud rhagor o waith er mwyn cael y darlun cyflawn.  Nododd y Pwyllgor yr amrywiol gyfleoedd i awdurdodau lleol weithio ar y cyd wrth ddatblygu'r mesur arfaethedig ac mae'n eu hannog i wneud pob ymdrech i fynd ar drywydd y rhain.

16.  Er gwaethaf hyder y Dirprwy Brif Weinidog mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus y gall y nifer gynyddol o gerbydau unllawr achosi anawsterau i rai ysgolion oherwydd yr angen am fwy o le.  Mae'r Pwyllgor yn nodi bod angen gwneud rhagor o waith o ran datblygu systemau teledu cylch cyfyng ar gludiant i ddysgwyr.

17.  Mae'r Pwyllgor Cyllid yn dod â'r sylwadau hyn i sylw'r Cynulliad.

**Angela Burns**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**